FSA 06/07/05 **EITEM 3.4 AR YR AGENDA, 13 GORFFENNAF 2006**

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD BWRDD Y GWASANAETH HYLENDID CIG (MHS)

Crynodeb Gweithredol

1. Adroddiad gan Gadeirydd yr MHS yw hwn i Fwrdd yr FSA fel rhan o drefniadau atebolrwydd Bwrdd yr MHS i Fwrdd yr FSA. Mae'r adroddiad yn nodi gwaith Bwrdd yr MHS rhwng mis Rhagfyr 2005 a mis Mehefin 2006, ac mae'n amlinellu'r materion a'r heriau y bydd Bwrdd yr MHS yn mynd i'r afael â hwy yn ystod y cyfnod adrodd chwe mis nesaf a thu hwnt.

2. Sefydlwyd Bwrdd yr MHS fel is-bwyllgor o Fwrdd yr FSA yn ystod hydref 2004. Yn unol â Chylch Gwaith Bwrdd yr MHS, mae'n ofynnol i Gadeirydd Bwrdd yr MHS adrodd yn ffurfiol i Fwrdd yr FSA ddwywaith y flwyddyn. Dyma'r trydydd adroddiad gan Gadeirydd Bwrdd yr MHS.

3. Gwahoddir Bwrdd yr FSA i **nodi'r** adroddiad gan Gadeirydd Bwrdd yr MHS. **Nid oes angen** cymryd unrhyw gamau.

Y GWASANAETH HYLENDID CIG

Cysylltwch â:

David Bramley Ffôn: 01904 455164
Ebost: david.bramley@foodstandards.gsi.gov.uk

FSA 06/07/05 **EITEM 3.4 AR YR AGENDA, 13 GORFFENNAF 2006**

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD BWRDD Y GWASANAETH HYLENDID CIG (MHS)

Mater

1. Adroddiad gan Gadeirydd yr MHS yw hwn i Fwrdd yr FSA fel rhan o drefniadau atebolrwydd Bwrdd yr MHS i Fwrdd yr FSA. Mae'r adroddiad yn nodi gwaith Bwrdd yr MHS rhwng mis Rhagfyr 2005 a mis Mehefin 2006, ac mae'n amlinellu'r materion a'r heriau y bydd Bwrdd yr MHS yn mynd i'r afael â hwy yn ystod y cyfnod adrodd chwe mis nesaf a thu hwnt.

Cefndir

2. Yn dilyn Adolygiad o Rolau a Chydberthnasau rhwng yr FSA a'r MHS, cytunwyd yn ystod hydref 2004 y dylid atgyfnerthu llywodraethu anweithredol yr MHS. O ganlyniad, diddymwyd y Pwyllgor Cynghori ar Hylendid Cig a chrewyd Bwrdd yr MHS - o dan Ddeddf Safonau Bywd 1999 - fel is-bwyllgor Bwrdd yr FSA. Swyddogaethau Bwrdd yr MHS yw rhoi arweiniad strategol i'r MHS o fewn y strategaeth gyffredinol y cytunwyd arni gan Fwrdd yr FSA; pennu targedau addas ar gyfer yr MHS a monitro ei berfformiad/ei ddwyn i gyfrif ar ran Bwrdd yr FSA.

3. Mae'n ofynnol i Gadeirydd Bwrdd yr MHS, o dan baragraff 3 ei Gylch Gorchwyl (gweler Atodiad A (pob dolen gyswllt), Dolen Gyswllt 1) adrodd yn ffurfiol i Fwrdd yr FSA ddwywaith y flwyddyn. Dyma'r trydydd adroddiad llawn. Mae'r adroddiadau blaenorol ar gael o wefan Bwrdd yr FSA (Gweler Dolenni Cyswllt 2 a 3).

Aelodaeth

4. Mae manylion am aelodau Bwrdd yr MHS ar gael o adran Bwrdd yr MHS ar wefan yr FSA (gweler Dolen Gyswllt 4)

5. Mae Bwrdd yr MHS yn ymwrymedig i gynorthwyo ei aelodau i wella eu cyfraniad i effeithiolrwydd y Bwrdd yn barhaus. I'r perwyl hwn, cytunodd Bwrdd yr MHS ym mis Ionawr 2006 i gynnal cynllun adolygu a datblygu perfformiad yn seiliedig ar y cynllun a weithredwyd ar gyfer aelodau Bwrdd yr FSA. Bydd y cynllun yn berthnasol i holl aelodau Bwrdd yr MHS, gan gynnwys y swyddogion, a Debby Reynolds fel ymgyngorydd Bwrdd yr MHS.

Rhoi arweiniad strategol i'r MHS; Pennu targedau a dwyn yr MHS i gyfrif

Asesu perfformiad yr MHS yn 2005/06

6. Cafodd perfformiad yr MHS ei ystyried yn erbyn ei dargedau/nodau uchelgeisiol yn ystod y flwyddyn ariannol 2005/06 yn nghyfarfod Bwrdd yr MHS ym mis Mai. Nododd asesiad Bwrdd yr MHS (a atodir yn llawn yn Atodiad B) bod yr MHS wedi cyflawni pedwar o'i bum targed yn llawn a'i fod wedi rhannol gyflawni'r targed arall. Yn gyffredinol, roedd 2005/06 yn flwyddyn heriol, ond cadarnhaol i'r MHS. Yn ogystal â chyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau, aeth yr MHS i'r afael ag amrywiaeth o heriau eraill yn cynnwys archwilio 37 o storfeydd oer yng Nghogledd Iwerddon, cynnal gwasanaeth o safon uchel yn ystod y streic un dydd a drefnwyd gan UNISON ym mis Mawrth 2006 a pharatoi ar gyfer streic pum niwrnod, a gafodd ei ganslo ar fyr rybudd.

Cynllun Busnes a Thargedau Corfforaethol yr MHS ar gyfer 2006/07 (Dolen Gyswllt 5)

7. Cytunodd Bwrdd yr MHS y dylai'r MHS gynnig ei dargedau corfforaethol ei hun ar gyfer 2006/07. Yn dilyn hynny cynigiodd yr MHS fframwaith rheoli perfformiad yn seiliedig ar ymagwedd Cerdyn Sgorio Cytbwys ac ymgynghorodd yn anffurfiol ar hynny. Mae'r Cerdyn Sgorio yn canolbwyntio ar gyflawni detholiad cytbwys o Amcanion Corfforaethol ac mae'n dangos y cynnydd tuag at gyflawni amcanion yn gliriach. Ystyriodd Bwrdd yr MHS yr ymagwedd arfaethedig ac ymatebion rhanddeiliaid a gweithiodd gyda gweithrediaeth yr MHS er mwyn datblygu'r ymagwedd a mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys diwygio'r weledigaeth a chynnwys cyfeiriadau at randdeiliaid yn niben yr MHS er mwyn pwysleisio bod diogelu defnyddwyr wrth wraidd gwaith yr MHS.

8. Yn unol â pholisiau Bwrdd yr MHS a'r MHS ar ddidwylledd, bydd y Cerdyn Sgorio Cytbwys a'r adroddiadau eithrio [1] yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr FSA yn chwarterol.

Cynllun Strategol ar gyfer 2007/2010

9. Cafodd Cynllun Strategol presennol yr MHS ar gyfer 2004/05 - 2008/09 ei ddatblygu yn 2003. Ers hynny cafwyd newidiadau sylfaenol i'r amgylchedd strategol y mae'r MHS yn gweithredu ynddo. Nid lleiaf, newidiadau i rolau a chyfrifoldebau'r MHS a Gweithredwyr Busnesau Bwyd a gyflwynwyd gan Reoliadau Hylendid Bwyd newydd yr UE a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2006. Mae

[1]Fe'u cynhyrchir pan na fydd dangosydd ar y trywydd iawn er mwyn esbonio pa gamau a gymerir i ddod â'r dangosydd nôl ar y trywydd iawn

graddfa'r newidiadau hyn yn golygu bod angen datblygu Cynllun Strategol newydd yn hytrach na mireinio'r cynllun presennol.

10. Bydd Cynllun Strategol yr MHS yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Fwrdd yr MHS, a bydd modd ei addasu gydag adborth cyflym a llifau gwybodaeth effeithiol er mwyn ymateb i wybodaeth newydd ac ystyried newidiadau mewn amgylchiadau neu ddigwyddiadau annisgwyl. Bydd y cynllun strategol yn dod i ben yn 2010 fel bod cylch cynllunio strategol yr MHS yn cyfateb â chylch yr FSA.

11. Bydd y Cynllun Strategol newydd yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd gan Fwrdd yr MHS yn 2005, ac mae'r cynllun wedi'i integreiddio i raglen cyfarfodydd Bwrdd yr MHS yn ystod 2006/07, yn cynnwys ail gyfarfod rhanddeiliaid Bwrdd yr MHS a gynhelir yng Nghaerdydd ar 18 Gorffennaf 2006. Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i rhanddeiliaid yr MHS gyflwyno'r materion allweddol yn ymwneud â'r MHS sy'n eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf i Fwrdd yr MHS. Bydd y drafodaeth hon yn cael ei hystyried yn ofalus ac yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r cynllun strategol newydd, sef prif nod Bwrdd yr MHS dros y chwe mis nesaf.

12. Yn yr adroddiad a gyflwynwyd i Fwrdd yr FSA ym mis Rhagfyr 2005, nododd Bwrdd yr MHS ei bod yn bwriadu ymgysylltu â chynrychiolwyr defnyddwyr ar wahan er mwyn sicrhau bod y cyfeiriad strategol yn gytbwys. Mae'r dasg o ymgysylltu â chynrychiolwyr defnyddwyr ar faterion hylendid cig wedi parhau i fod yn her. Cyfarfu Cadeirydd Bwrdd yr MHS a Phrif Weithredwr yr MHs â chynrychiolydd y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol ym mis Mawrth i drafod y materion hyn a ffyrdd o ymgysylltu'n well â chynrychiolwyr defnyddwyr. Ymddengys fod y gwaith o ymgysylltu â sefydliadau defnyddwyr mewn perthynas â hylendid cig yn profi'n anodd oherwydd canfyddir bod y risg y mae cig yn ei beri i ddefnyddwyr yn isel neu'n cael ei reoli'n effeithiol. Pwysleisiodd Bwrdd yr MHS y buddiant a geir o'r cydweithio rhwng yr MHS a'r FSA i ymgysylltu â defnyddwyr a'u galluogi i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfathrebu. Rhaid deall anghenion y defnyddiwr yn glir er mwyn llywio'r polisi hylendid cig a ddatblygwyd gan yr FSA yn strategol a galluogi'r MHS i'w gyflawni.

Materion eraill

<u>Gweithredu Newidiadau i'r rheol Dros Dri Deg Mis (OTM)</u>

13. Mae Celia Bennett yn parhau i gynrychioli Bwrdd yr MHS ar y Grŵp Adolygu Profion OTM (IRG) ac mae'n derbyn ac yn ystyried adroddiadau ganddi ar bob cyfarfod IRG. Nid oes unrhyw faterion pwysig wedi codi y mae angen eu cyfeirio at Fwrdd yr FSA. Ymddengys fod y newid wedi mynd yn dda iawn hyd yma.

<u>Torri rheolau o ran cael gwared ar Ddeunydd Risg Penodedig (SRM)</u>

14. Yn ystod y cyfnod adrodd cafwyd dau achos o dorri rheolau SRM mewn gwartheg, a hysbyswyd Bwrdd yr FSA amdanynt.[2]. Er bod unrhyw achos o dorri rheolau SRM yn bryder difrifol dylid nodi bod yr anifeiliaid yn y ddau achos dros dri deg mis a'u bod wedi profi'n negyddol i BSE.

Newid Rôl yr MHS

15. Bu cyflwyno Rheoliadau Hylendid Cig yn yr UE ym mis Ionawr 2006 yn fodd o ailddatgan yr egwyddor mai cyfrifoldeb gweithredwyr safleoedd trwyddedig yw cynhyrchu cig ffres yn hylan, ac nid cyfrifoldeb yr MHS. Mae Bwrdd yr MHS wedi cefnogi'r MHS wrth iddo addasu ei rôl i ganolbwyntio ar archwilio a gwirio systemau gweithredwyr gweithfeydd, yn hytrach na'u goruchwylio. Yr her bellach yw annog staff yr MHS a Gweithredwyr Busnesau Bwyd i ystyried y newidiadau diwylliannol hyn.

Strwythur Milfeddygol ar gyfer y Dyfodol - Trefniadau Goruchwyliaeth Filfeddygol o fewn yr MHS

16. Lansiodd yr MHS ymgynghoriad ar 11 Ebrill 2006 ar gynigion ar gyfer gwella trefniadau goruchwyliaeth filfeddygol o fewn yr MHS, a ddaw i ben ar 7 Gorffennaf 2006 (gweler Dolen Gyswllt 6). Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad gyda'r ail adroddiad gan DNV Consulting ar opsiynau ar gyfer darparu milfeddygon o fewn yr MHS, [3]ac aeth i'r afael â materion a godwyd yn adroddiadau Wall[4], y Grŵp Cynghori Annibynnol[5] ac adroddiadau cyntaf DNV.[6] Trafododd Bwrdd yr MHS y cynigion yn ei gyfarfodydd ym mis Tachwedd 2005 a mis Ionawr 2006 a phenderfynwyd ar yr achlysuron hyn bod angen rhagor o waith cyn y gellid lansio'r ymgynghoriad. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys sicrhau bod y cynigion yn adlewyrchu barn gytûn yr FSA a'r MHS (Tachwedd) a rhoi rhagor o wybodaeth am y strategaeth drîn costau a goblygiadau cyfreithiol y cynnigion i'w galluogi i ystyried yr opsiynau yn well (Ionawr). Cyflwynwyd cynigion ymgynghori diwygiedig rhwng sesiynau i Fwrdd yr MHS a oedd yn mynd i'r afael â'r pryderon trîn â'r pryderon cyfreithiol. Roedd gan y Bwrdd bryderon o hyd ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth am gostau ond credodd, ar y cyfan, y byddai cyhoeddi'r ymgynghoriad yn cael mwy o fudd ac yn peri llai o risg na gohirio'r broses o'i gyhoeddi.

Archwiliad Allanol

[2] Cafodd dros 900,000 o wartheg eu lladd yn ystod y cyfnod adrodd

[3]Yn cyfeirio at yr ail adroddiad gan yr ymgynghorwyr DNV, 'Review of options for provision of Veterinary Surgeons within the MHS' (Gorffennaf 2005)

[4]Yn cyfeirio at yr adroddiad gan Patrick Wall ar 'Inquiry into the failure to comply with the requirements to test all 24 – 30 month old casualty animals for BSE' (2004)

[5]Yn cyfeirio at adroddiad gan y Grŵp Cynghori Annibynnol ar ddatblygu system o brofion BSE ar gyfer gwartheg dros dri deg mis.

[6]Yn cynnwys yr adroddiad cyntaf gan yr ymgynghorwyr DNV ar 'Review of MHS management system following Wall report recommendations' (Chwefror 2005)

17. Yn ystod y cyfnod adrodd, mynegodd Bwrdd yr MHS bryderon ynglyn a'r nifer o archwiliadau allanol a gynhaliwyd gan yr MHS ledled Prydain Fawr a'r broses o'u cymhwyso'n gyson yn ogystal â'r trefniadau ar wahan yng Ngogledd Iwerddon, er nad yw hynny yn uniongyrchol yn rhan o waith yr MHS. Yn sgîl hyn, cafodd y pryderon hyn eu rhannu â'r FSA ac, mewn ymateb, cyflwynodd Cyfarwyddwr Gorfodi yr FSA adroddiad, trwy adroddiad y Cadeirydd, yng nghyfarfod Bwrdd yr MHS ym mis Mai, ar y gwaith a fyddai'n cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Trefniadau'r Pwyllgor Archwilio

18. Mae aelodau Bwrdd yr MHS wedi cymryd rhan mewn adolygiad allanol o drefniadau Pwyllgor Archwilio'r FSA a'r MHS. Yn y gorffennol, roedd aelodau Bwrdd yr MHS wedi mynegi pryder am y berchenogaeth o risg a'r diffyg cyswllt â Phwyllgor Archwilio a Risg yr MHS ac felly croesawyd yr adolygiad amserol hwn. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn rydym yn disgwyl canlyniadau'r adolygiad.

Heriau Eraill ar gyfer yr MHS

19. Dros y chwe mis nesaf bydd yr FSA yn ystyried nifer o faterion a allai effeithio ar yr MHS. Ymhlith y rhain mae'r broses o gymeradwyo gweithfeydd cig sy'n ofynnol o dan y rheoliadau hylendid bwyd newydd; a'r cynnig i gyflwyno taliadau ar gyfer rheolaethau ar waredu SRM yn raddol.

Camau i'w Cymryd gan y Bwrdd

20. Gofynnir i Fwrdd yr FSA **nodi'r** adroddiad gan Gadeirydd Bwrdd yr MHS. **Nid oes angen** cymryd unrhyw gamau .

ATODIAD A

DOLENNI CYSWLLT

1. Cylch Gorchwyl Bwrdd yr MHS:
http://www.food.gov.uk/enforcement/meathyg/mhservice/mhsboard/#h_2

2. Adroddiad Cadeirydd Bwrdd yr MHS i Fwrdd yr FSA ym mis Rhagfyr 2005 (Eitem 5) ar gael o:
http://www.food.gov.uk/aboutus/ourboard/boardmeetings/boardmeetings2005/boardmeeting120805/boardagenda081205

3. Adroddiad Cadeirydd yr MHS i Fwrdd yr FSA ym mis Gorffennaf 2005 (Eitem 4) ar gael o:
http://www.food.gov.uk/aboutus/ourboard/boardmeetings/boardmeetings2005/boardmeeting071405/boardagenda14072005

4. Aelodaeth Bwrdd yr MHS yn:
http://www.food.gov.uk/enforcement/meathyg/mhservice/mhsboard/#h_1

5. Cynllun Busnes yr MHS ar gyfer 2006/07 yn:
http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/mhsbusplan0607.pdf

6. Ymgynghoriad ar Newidiadau arfaethedig i drefniadau goruchwylio milfeddygol o fewn y Gwasanaeth Hylendid Cig ar gael o:
http://www.food.gov.uk/Consultations/ukwideconsults/2006/mhsvetconsult

ATODIAD B

ASESIAD O BERFFORMIAD Y GWASANAETH HYLENDID CIG (MHS) YN ERBYN NODAU – 2005/06

Yn unol â gofynion Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Asiantaethau Gweithredol, mae Dogfen Fframwaith yr MHS yn ei wneud yn ofynnol i osod targedau perfformiad blynyddol ar gyfer yr MHS. Rhaid i'r fath dargedau neu nodau fod yn gysylltiedig ag amcanion yr MHS a dylent gwmpasu ansawdd y gwasanaeth a'r broses o'i ddarparu, perfformiad ariannol ac effeithlonrwydd. Cyfrifoldeb yr MHS, ar ran Bwrdd yr FSA, yw pennu'r fath nodau ar gyfer yr MHS, ac asesu'r perfformiad yn eu herbyn.

Cyfarfu Bwrdd yr MHS ar 4 Mai 2006 ac aethant ati i asesu perfformiad yr MHS yn erbyn y Nodau a bennwyd ar gyfer 2005/06. Daeth i'r casgliad bod pedwar o'r pum Nod wedi cael eu cyflawni, a bod Nod 3 wedi cael ei rannol gyflawni.

Nod 1: Cymhwyso deddfwriaeth hylendid, sgîl-gynhyrchion, lles anifeiliaid, BSE, TSE a HACCP a'r Polisi Da Byw Glân, yn unol ag egwyddorion y Concordat Gorfodi, gyda'r nod o wella lefelau cydymffurfiaeth ymhlith gweithredwyr.

O ran perfformiad yr MHS a fesurwyd yn ôl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr archwiliadau, mae'r MHS wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn. Nid oedd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio difrifol a nodwyd bod y nifer o achosion o ddiffyg cydymffurfio mawr ar gyfer y meysydd penodol a ddewiswyd gan Fwrdd yr MHS ar eu hisaf erioed. Nodwyd targedau ar gyfer mân achosion o ddiffyg cydymffurfio am y tro cyntaf. Cyflawnwyd tri o'r targedau hyn, ond rhagorwyd ar y targed ar gyfer sgîl-gynhyrchion anifeiliaid (4.1 o fân achosion o ddiffyg cydymffurfio fesul 100 o archwiliadau). Mae'r MHS wedi rhoi camau unioni ar waith ar gyfer y dangosydd hwn yn ei swyddfeydd rhanbarthol, a disgwylir gwell cydymffurfiaeth yn ystod y misoedd nesaf.

Er bod yr MHS wedi cyflawni'r targed ar gyfer gweithredu HACCP mewn safleoedd bach, methodd â chyflawni'r targed a osodwyd ar gyfer safleoedd mawr o drwch blewyn (2%). Mae hyn yn cyfateb i 3 safle. Er bod yr MHS yn awyddus i gau'r bwlch hwn, cafwyd nifer o newidiadau i'r diffiniad a'r ymagwedd tuag at HACCP yn ystod chwarter olaf 2005/06, yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Hylendid Bwyd newydd yr UE. O ganlyniad, mae Bwrdd yr MHS wedi cytuno i asesu perfformiad yn seiliedig ar berfformiad yn ystod y naw mis tan 31 Rhagfyr 2005.

Er y cafwyd un achos o dorri rheol SRM o ran defaid mewn perthynas â 2 garcas (dim mewn gwartheg), y mae'r MHS yn ei ystyried yn ddifrifol, mae hyn yn cyfateb i gyfradd gydymffurfio sy'n well na 99.99%.

Yn dilyn un achos o dorri rheol OTM ym mis Ebrill 2005, cafwyd 11 mis yn olynol yn 2005/06 heb unrhyw achos o dorri'r rheol. Yn ogystal, mae'r holl wartheg cyn mis Awst 1996 a gyflwynwyd ar gyfer eu prosesu wedi cael eu rhwystro rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd, yn dilyn newid yn y rheol OTM.

Gan fod y mwyafrif helaeth o'r dangosyddion ar gyfer y Nod hwn wedi cael eu cyflawni (13 allan o 17 [7], a'r cyfraddau cymdymffurio o ran SRM ac OTM mor uchel, penderfynodd Bwrdd yr MHS bod Nod 1 wedi cael ei gyflawni.

Nod 2: Gwetihredu o fewn y gyllideb adnoddau ddirprwyedig ar gyfer 2005/06

Gan fod cyfrifon drafft anarchwiliedig yr MHS ar gyfer 2005/06 yn dangos safle ffafriol o £2.6m, 7.5% (cyflawnwyd 1 dangosydd allan o 1), penderfynodd Bwrdd yr MHS bod Nod 2 wedi cael ei gyflawni.

Nod 3: Gwella arbenigedd, gwybodaeth, cymhelliant a sgiliau staff a datblygu'r diwylliant mewnol anghenrheidiol i gyflawni amcanion sefydliadol.

Cydnabu Bwrdd yr MHS a Bwrdd Rheoli'r MHS bwysigrwydd gwella cyfraddau presenoldeb staff yr MHS, yn arbennig ymhlith staff ar absenoldeb tymor hir o ganlyniad i salwch. Pennodd Bwrdd yr MHS darged i leihau nifer yr achosion o salwch tymor hir 5%, ac yn ystod hydref 2005, lansiodd Bwrdd Rheoli'r MHS bolisi a gweithdrefnau newydd gan gynnig hyfforddiant ar gyfer rheolwyr llinell. Ar 31 Mawrth 2006, roedd 61 o achosion o salwch tymor hir, 24% yn llai na'r nifer ar ddechrau 2005/06.

Er mai dim ond un o'i bedwar targed amrywiaeth (yn ymwneud â rhyw) a gyflawnwyd gan yr MHS, cafodd ei rwystro gan gyfradd trosiant cymharol isel a sefydlog (7%). Cyflawnwyd gwelliannau ffiniol o ran cynrychiolaeth ethnig a staff ag anabledd nad ydynt yn staff gweithredol.

Er na phennwyd targedau ar gyfer y meysydd gwaith canlynol, roeddent yn destun gweithgareddau a gyfrannodd tuag at Nod 3:

- Cynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn arolwg staff 2004;
- Rheoli Iechyd a Diogelwch;
- Cynllun Gweithredu Buddsoddwyr mewn Pobl;
- Cynllun Hyfforddi Corfforaethol;
- Adolygu Cyflogau a Graddau.

[7]Ni chafodd 3 dangosydd eu asesu gan Fwrdd yr MHS, oherwydd ni chynhaliwyd y gweithgaredd archwilio (gan eraill) yr oeddent yn seiliedig arno fel y bwriadwyd yn 2005/06

Gan fod 2 o'r 5 dangosydd wedi cael eu cyflawni, penderfynodd Bwrdd yr MHS bod y nod hwn wedi cael ei rannol gyflawni.

Nod 4: Gwella lefelau boddhad cwsmeriaid gyda pherfformiad yr MHS fel sefydliad proffesiynol a theg

Cyflawnodd yr MHS y 2 darged a bennwyd gan Fwrdd yr MHS o ran arolwg boddhad cwsmeriaid y diwydiant - cyfradd ymateb a boddhad cyffredinol.

Yn anffodus, ni chyflawnodd yr MHS unrhyw un o'r targedau o ran cwynion. Fodd bynnag, roedd nifer fawr o'r cwynion a dderbynwyd (tua thraean) yn ymwneud â materion y tu hwnt i reolaeth yr MHS, fel rhaglen ddogfen y BBC a ddarlledwyd ym mis Gorffennaf 2005 a'r gweithredu dwydiannol. Dyfarnwyd 5 o'r cwynion a aseswyd gan yr MHS o blaid yr achwynydd. Er na chyflawnwyd y targed i leihau nifer y cwynion, mae'n galonogol bod y diwydiant cig yn ymwybodol o weithdrefn yr MHS ac yn ei ddefnyddio.

Cyflawnodd yr MHS ei holl dargedau o ran Safonau Gwasanaeth yn Gyntaf.

Gan fod y mwyafrif helaeth o'r dangosyddion ar gyfer y Nod hwn wedi cael eu cyflawni (5 allan o 7), a bod nifer fawr o'r cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â materion y tu hwnt i reolaeth yr MHS, penderfynodd Bwrdd yr MHS bod Nod 4 wedi cael ei gyflawni.

Nod 5: Gwella effeithlonrwydd

Cafodd y dangosydd cost fesul uned da byw ei effeithio yn 2005/06 gan gostau sefydlu mawr ar gyfer profi gwartheg dros dri deg mis am BSE, nad oeddent yn hysbys ar adeg cytuno ar gyllideb 2005/06, a'r ffaith bod y diwydiant wedi cymryd mwy o amser i weithredu ar hyn. O ganlyniad roedd yn 0.2% yn uwch na'r targed. Os caiff costau sefydlu a lladd a phrosesu OTM eu heithrio o'r cyfrifiad cost fesul uned da byw, adroddir sefyllfa ffafriol o 3.5%. Cyflawnwyd pob dangosydd effeithlonrwydd arall.

Gan fod pob un o'r dangosyddion ar gyfer y Nod hwn wedi cael eu cyflawni ar wahan i un (4 allan o 5), a bod costau sefydlu mawr wedi effeithio ar y dangosydd hwn, penderfynodd Bwrdd yr MHS bod Nod 5 wedi cael ei gyflawni.

Casgliad

Cyflawnodd yr MHS bedwar o'r pum Nod, ac un yn rhannol. Hyd yn oed lle nas cyflawnwyd y dangosyddion roedd y cyfeiriad cyffredinol yn gadarnhaol. Llwyddodd yr MHS hefyd i oresgyn yr heriau canlynol:

- Rhoi newidiadau ar waith i'r rheol OTM o 7 Tachwedd 2005;
- Cynnal 37 o archwiliadau o storfeydd oer yng Ngogledd Iwerddon, ar fyr rybudd, ar ran yr FSA;
- Rhoi Rheoliadau Hylendid Bwyd newydd yr UE ar waith o 1 Ionawr 2006;
- Cynnal lefel uchel o wasanaeth yn ystod y streic un dydd a drefnwyd gan UNISON ym mis Mawrth 2006;
- Paratoi ar gyfer achosion o Ffliw adar;
- Gweithredu'r Adolygiad Cyflogau a Graddau a rhoi cytundeb tâl tair blynedd ar waith.

Yn gyffredinol, bu 2005/06 yn flwyddyn gadarnhaol i'r MHS.